



Adran y Gwyddorau Bywyd
Department of Life Sciences

Astudiaethau uwchraddedig mewn **Gwyddorau Bywyd**

Cynnwys

Croeso	t.1
Ein cyrsiau	t.2
Graddau ymchwil	t.21
Ein hymchwil	t.22
Uchafbwyntiau ymchwil	t.24

Gwybodaeth bwysig

Roedd yr wybodaeth a gyhoeddir yn y llyfryn hwn am y rhaglenni gradd yn gywir pan anfonwyd y ddogfen i'w hargraffu (Hydref 2025), ond gellid ei newid. Cyn gwneud cais, rydym yn cynghori darpar fyfyrwyr i edrych ar ein gwefan i gael yr wybodaeth a'r manylion diweddaraf am y cwrs gan gynnwys ein gofynion mynediad, er mwyn bod yn sicr fod y cynllun yn addas i'w gofynion.



Croeso

Croeso i Adran y Gwyddorau Bywyd.

Rydym ni'n falch iawn eich bod yn ystyried Adran y Gwyddorau Bywyd fel lle i astudio eich gradd uwchraddedig. Rydym ni'n athrofa o safon fyd-eang sy'n cynnal ymchwil sy'n gwneud cyfraniad sylweddol at ddatrys problemau'r byd fel atal clefydau marwol, diogelwch bwyd a thwf cynydu mewn pridd â thuedd at sychder, datblygu tanwydd cynaliadwy ac ecogyfeillgar, ac astudio effeithiau'r newid yn yr hinsawdd ar ein ecosystem. Rydym ni'n cynnig amrywiaeth eang o raglenni Meistr trwy gwrs a dysgu o bell, ac yn croesawu myfyrwyr ymchwil ar brosiectau sy'n cyd-fynd â'n harbenigeddau.

Rydym ni'n darparu amgylchedd dysgu rhagorol ar gyfer datblygu'n academiaidd ac yn bersonol, ac yn ymfalchio ein bod yn cyflwyno profiad addysgu a dysgu o'r ansawdd uchaf i'ch helpu i gyflawni eich nod.

Mae ein cyfleusterau o'r radd flaenaf yn cynnwys:

- Canolfan Genedlaethol Ffenomeg Planhigion y DU, rhaglenni bridio planhigion sy'n sail ar gyfer cynhyrchu hadau'n fasnachol, bio-fanc hadau sy'n rhan o Grŵp Adnoddau Genetig Planhigion y DU, cyfleusterau ymchwil cynydu hydroponig, rhaglenni ymchwil cynydu bionanwydd a Chanolfan Bioburo BEACON
- mentrau fferm y brifysgol sy'n cynnwys diadelloedd o ddefaid masnachol, buches odro sy'n cael eu godro'n robotig, uned amnewid heffrod godro, uned besgi cig eidion, a chnydau â'r phorthiant masnachol
- cyfleusterau ar gyfer astudiaethau aml-omig trwybwn uchel, gan gynnwys genomeg, metabolomeg, proteomeg a ffenomeg. Er mwyn helpu gyda dadansoddi biowybodeg, mae clwstrwr cyfrifiadura perfformiad uchel ar gael, gydag adnoddau ychwanegol gan Uwchgyfrifiadura Cymru

- mynediad i'n cyfleusterau acwariwm ymchwil, y technegau swŷolegol diweddaraf gan gynnwys dadansoddiadau moleciwlaidd, microsgopeg uwch ac asesu bioamrywiaeth cyfoes, ac amrywiaeth o gynefinoedd a rhywogaethau o bwys rhyngwladol yn ardal Aberystwyth - lleoliadau delfrydol ar gyfer astudio pob agwedd ar gadwraeth bywyd gwyllt a rheoli cynefinoedd
- adnoddau gwyddor da byw, cynhyrchu ac iechyd sy'n cynnwys Cyfleuster Ymchwil Tiwbercwlosis Buchol Canolfan a Labordai Milfeddygol1, cyfleusterau Parasitoleg Filfeddygol a pherthynas waith agos gyda Chanolfan Gwyddor Filfeddygol Cymru
- Gorsaf Ymchwil yr Ucheldir Pwll-peiran, sy'n ganolfan ar gyfer astudio ecosystemau ffermio'r ucheldir gydag amrywiaeth eang o fathau o lystyfiant yn cwmpasu continwrm o lastir a reolir yn ddwys i borfa mynydd
- ArloesiAber, Campws Arloesi a Menter Aberystwyth, cartref Canolfan Bwydydd y Dyfodol, sy'n amgylchedd safoni bwyd ar gyfer profi, dilysu a gwella deunyddiau presennol a newydd fel bwydydd, ac Uwch Ganolfan Dadansoddi, sy'n cefnogi anghenion dadansoddi ar gyfer astudiaethau ymyrraeth bwyd.

Mae Aberystwyth yn dref glan mor fywiog a chosmopolitan, gyda llawer i'w gynnig i'n myfyrwyr. Mae'n gorwedd mewn tirwedd ysbllennydd sy'n cynnwys môr, traeth, dyffrynnoedd coediog a bryniau ac mae'n lle unigryw i fyw ac astudio ynddo.

Darllenwch y llyfryn hwn i wybod mwy am ein cyrsiau uwchraddedig - rydym ni'n eich croesawu'n gynnes i ymuno â'n cymuned fywiog o fyfyrwyr uwchraddedig a staff.

Dr Joe Ironside, Pennaeth Adran

Ein cyrsiau

Graddau a ddysgir

Gwyddor Anifeiliaid, MSc	t.3
Gwyddor Anifeiliaid, MRes	t.4
Gwyddor Ceffylau, MSc	t.6
Gwyddor Ceffylau, MRes	t.7
Gwyddor Da Byw, MSc	t.8
Gwyddorau Biolegol, MRes	t.9
Rheoli Bioamrywiaeth a Chadwraeth, MSc	t.10
Rheoli Parasitiaid, MRes	t.11

Dysgu o bell

Amaethyddiaeth, MRes	t.13
Amaethyddiaeth Gynaliadwy, MSc, Diploma, Tystysgrif	t.14
Arloesi Bwyd-Amaeth, MSc	t.16
Arloesi Bwyd-Amaeth, MRes	t.18
Gwyddor Da Byw, Tystysgrif	t.19

Graddau ymchwil

MPhil, PhD, DAg, DProf	t.21
------------------------	------

Gwyddor Anifeiliaid

MSc

Rhoddir pwyslais mawr ar astudio sy'n canolbwyntio ar y myfyriwr, a chewch eich annog, lle bo hynny'n briodol, i fynd ar drywydd y meysydd sydd o ddiddordeb penodol i chi. Bydd y radd yn rhoi ichi'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch eu hangen i ddilyn gyrfa lwyddiannus ym maes gwyddor anifeiliaid.

Drwy astudio ffisioleg anifeiliaid a'i chymhwyso i faeth, bridio a rheoli anifeiliaid, byddwch mewn sefyllfa ddelfrydol i sicrhau bod gofynion cynhyrchu a lles yn cael eu cydbwysu'n addas trwy ddatblygu a chyflwyno arferion rheoli arloesol a llledaenu wybodaeth a chynghor i ymarferwyr.

Byddwch yn elwa o:

- cyfle i gymysgu ag ymchwilwyr o fri rhyngwladol a fydd o gymorth i chi i feithrin cysylltiadau ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol
- cael eich dysgu gan staff a chanddynt enw da'n rhyngwladol am ddysgu a gwaith ymchwil ym maes gwyddor anifeiliaid
- addysgu sy'n gallu manteisio ar 800 ha o dir ffermio, uned â 350 o wartheg godro, unedau defaid ar dir uchel a thir isel, a iard geffylau ar gyfer dysgu ac ymchwil
- ystod wych o labordai modern o safon fyd-eang.

Cyflogadwyedd

Bydd y radd hon yn rhoi ichi'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch eu hangen i ddilyn gyrfa flaenllaw mewn ymchwil a datblygu anifeiliaid, maeth a lles, y byd academiaidd, hyfforddiant a dysgu, mentrau cyhoeddus a mentrau masnachol preifat, gwaith ymgynghori, asiantaethau llywodraeth, a chyrff anlywodraethol ledled y byd. Mae nifer o'n graddedigion hefyd wedi mynd ymlaen i astudio gradd ddoethuriaeth mewn Meddygaeth Filfeddygol.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Animal Breeding and Genetics
- Infection and Immunity
- Traethawd Hir.

Animal Breeding and Genetics

Astudio'r potensial am welliannau genetig i nodweddion economaidd a/neu berfformiad trwy ddefnyddio geneteg Fendelaidd a moleciwlaidd.

Infection and Immunity

Astudio swyddogaeth imiwnoleg, bacterioleg, firoleg, a pharasitoleg yng nghlefydau anifeiliaid ar lefel foleciwlaidd a chymhwyso.

Traethawd Hir

Cyfle ichi gyflawni astudiaeth archwiliadol fanwl a sylweddol mewn maes o'ch dewis.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Equine Nutrition
- Livestock Nutrition
- Grassland Science
- Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology
- Livestock Production Science
- Understanding Equine Action from Anatomy to Behaviour.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

Ffeithiau allweddol



Math o radd: MSc



Cod y cwrs: D310



Hyd: 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

Gwyddor Anifeiliaid

MRes

Mae'r radd MRes yn wahanol i radd MSc Gwyddor Anifeiliaid gan ei bod yn rhoi llawer mwy o bwyslais ar ymchwil nag ar elfennau a ddysgir.

Drwy ddarparu safon uchel o hyfforddiant ar waith ymchwil, mae'r MRes yn ddelfrydol i'r rhai sy'n ystyried gwneud PhD mewn gwyddor ceffylau neu ym meysydd ehangach gwyddorau anifeiliaid, milfeddygol neu fiolegol, yn ogystal â gyrfaedd mewn ymchwil a datblygu. Byddwch yn gweithio o dan oruchwyliaeth ymchwilwyr gweithredol sy'n arbenigwyr yn eu maes. Byddwch yn datblygu prosiect ymchwil am un flwyddyn ym meysydd cynhyrchu, atgennedlu, parasitoleg, maeth, gwybyddiaeth ag ymddygiad. Cewch eich mentora ar gynllunio arbrofion ar sail damcaniaeth, ac fe gewch eich hyfforddi ar dechnegau dadansoddi, dadansoddi ystadegau a dehongli canlyniadau. Byddwch hefyd yn astudio meysydd eraill o wyddor anifeiliaid drwy astudio dau fodiwl dewisol o'r opsiynau sydd ar gael.

Byddwch yn elwa o:

- cyfle i gymysgu ag ymchwilwyr o fri rhyngwladol a fydd o gymorth i chi i feithrin cysylltiadau ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol
- cael eich dysgu gan staff a chanddynt enw da'n rhyngwladol am ddysgu a gwaith ymchwil ym maes gwyddor anifeiliaid.

Cyflogadwyedd

Bydd y radd hon yn rhoi ichi'r wybodaeth a'r sgiliau y byddwch eu hangen i ddilyn gyrfa flaenllaw mewn ymchwil a datblygu anifeiliaid, maeth a lles, y byd academiaidd, hyfforddiant, mentrau cyhoeddus a mentrau masnachol preifat, gwaith ymgynghori, asiantaethau llywodraeth, a chyrrff anllywodraethol ledled y byd. Mae nifer o'n graddedigion hefyd wedi mynd ymlaen i astudio am ddoethuriaeth mewn Meddygaeth Filfeddygol.

Ffeithiau allweddol



Math o radd: MRes



Cod y cwrs: D311



Hyd: 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

Modiwlau

Ar y cwrs hwn, byddwch yn astudio'r modiwlau craidd canlynol:

- Traethawd Hir.

Byddwch hefyd yn dewis dau fodiwl arall o blith casgliad, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Infection and Immunity
- Animal Breeding and Genetics
- Equine Nutrition
- Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology
- Understanding Equine Action: From Anatomy to Behaviour
- Livestock Nutrition
- Livestock Production Science
- Grassland Science.

Infection and Immunity

Astudio swyddogaeth imiwnoleg, bacterioleg, firoleg, a pharasitoleg yng nghlefydau anifeiliaid ar lefel foleciwlaidd a chymhwysol.

Equine Nutrition

Astudio egwyddorion maetheg yng nghyswllt bwydo ceffylau i gael y twf, y datblygiad a'r perfformiad gorau posibl.

Understanding Equine Action from Anatomy to Behaviour

Meithrin dealltwriaeth am anatomeg, ffisioleg ac ymddygiad ceffylau er mwyn gwella lles ceffylau, yn enwedig ceffylau perfformio.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.



Gwyddor Ceffylau

MSc

Bydd y radd hirsefydlog hon sydd wedi ennill cydnabyddiaeth ryngwladol yn rhoi gwybodaeth drylwyr i chi am y pwnc ynghyd â sgiliau proffesiynol. Wedi ichi raddio, byddwch yn gallu dilyn gyrfa mewn amrywiaeth o swyddi yn y diwydiant ceffylau.

Mae pwyslais cryf yn cael ei roi ar astudiaeth sy'n canolbwyntio ar y myfyrwyr er mwyn hogi eich sgiliau meddwl yn wreiddiol, dadansoddi, dehongli a rhesymu; yn ogystal â'ch annog, lle bo'n briodol, i fynd ar drywydd eich meysydd diddordeb eich hunain. Mae gwyddor a ffisioleg ceffylau a rhoi gwybodaeth ar waith yn ymarferol yn themâu craidd drwy gydol y cwrs.

Byddwch yn elwa o:

- cael eich dysgu gan y darparwr addysg uwch mwyaf hirsefydlog ym maes ceffylau yn y DU – sefydlwyd y radd MSc Gwyddor Ceffylau ym 1978
- cyfle i gymysgu ag ymchwilwyr o fri rhyngwladol a fydd o gymorth i chi i feithrin cysylltiadau ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol
- cyfle i fanteisio ar iard geffylau ddysgu sydd â'r holl offer angenrheidiol, a'r unig iard bwrpasol yn y DU y tu allan i'r colegau milfeddygol sydd â thrwydded lawn ar gyfer ymchwil ym maes ceffylau
- mynediad at ystod wych o labordai modern o safon fyd-eang.

Cyflogadwyedd

Ar ôl graddio byddwch mewn sefyllfa ddelfrydol i fynd ymlaen i yrfaeod blaenllaw yn y diwydiant ceffylau neu broffesiynau cysylltiedig ym meysydd ymchwil ceffylau ac anifeiliaid, datblygu, y byd academaidd, hyfforddi, mentrau masnachol cyhoeddus a phreifat, gwaith ymgynghorol, a sefydliadau'r llywodraeth ym Mhrydain a ledled y byd. Hefyd, aeth nifer o'n graddedigion yn eu blaen i astudio cyrsiau PhD a Meddygaeth Filfeddygol.

Ffeithiau allweddol

 **Math o radd:** MSc

 **Cod y cwrs:** D391

 **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch o bosibl yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Animal Breeding and Genetics
- Infection and Immunity
- Equine Nutrition
- Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology
- Understanding Equine Action from Anatomy to Behaviour
- Traethawd Hir.

Infection and Immunity

Astudio swyddogaeth imiwnoleg, bacterioleg, firoleg, a pharasitoleg yng nghlefydau anifeiliaid ar lefel foleciwlaidd a chymhwysol.

Equine Nutrition

Astudio egwyddorion maetheg yng nghyswllt bwydo ceffylau i gael y twf, y datblygiad a'r perfformiad gorau posibl.

Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology

Ystyried sut y caiff ffisioleg atgynhyrchu ei gymhwyso i'r broses o reoli ceffylau ar gyfer bridio, a'r ffordd y caiff technegau bridio datblygedig eu defnyddio yn hyn o beth.

Understanding Equine Action from Anatomy to Behaviour

Meithrin dealltwriaeth am anatomeg, ffisioleg ac ymddygiad ceffylau er mwyn gwella lles ceffylau, yn enwedig ceffylau perfformio.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

Gwyddor Ceffylau

MRes

Mae'r radd MRes yn gyfle delfrydol i wneud gwaith ymchwil i faes penodol o wyddor ceffylau, tra byddwch chi hefyd yn astudio detholiad o elfennau a ddysgir ym meysydd atgenhedlu, anatomeg, imiwnoleg, maeth a geneteg ceffylau. Drwy ddarparu safon uchel o hyfforddiant ar waith ymchwil, mae'r MRes yn ddelfrydol i'r rhai sy'n ystyried gwneud PhD mewn gwyddor ceffylau neu ym meysydd ehangach gwyddorau anifeiliaid, milfeddygol neu fiolegol, yn ogystal â gyrfaeod mewn ymchwil a datblygu.

Byddwch yn gweithio o dan oruchwyliath ymchwilwyr gweithredol sy'n arbenigwyr yn eu maes. Byddwch yn datblygu prosiect ymchwil am un flwyddyn ym meysydd cynhyrchu, atgenhedlu, parasitoleg, maeth, gwybyddiaeth, ymddygiad, anatomeg, a seicoleg ymarfer corff. Cewch eich mentora ar ddylunio arbrofion ar sail damcaniaeth, ac fe gewch eich hyfforddi ar dechnegau dadansoddi, dadansoddi ystadegau a dehongli canlyniadau. Byddwch hefyd yn astudio meysydd eraill o wyddor ceffylau drwy astudio dau fodiwl a ddewiswch o'r opsiynau sydd ar gael.

Cyflogadwyedd

Wedi graddio, byddwch mewn sefyllfa ddelfrydol i ddilyn y gyrfaeod pennaf yn y diwydiant ceffylau i wella iechyd, lles a pherfformiad ceffylau. Byddwch yn gymwys i weithio mewn proffesiynau cysylltiedig ag anifeiliaid a cheffylau: ymchwil, datblygu, gwaith academaidd, hyfforddiant, mentrau masnachol cyhoeddus a phreifat, gwaith ymgynghorol, cyrff llywodraethol yn y DU a ledled y byd. Mae llawer o'n graddedigion hefyd wedi mynd ymlaen i astudio PhD a Meddygaeth Filfeddygol.

Ffeithiau allweddol

 **Math o radd:** MRes

 **Cod y cwrs:** D393

Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Traethawd Hir.

Byddwch hefyd yn dewis dau fodiwl arall o blith casgliad, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Infection and Immunity
- Animal Breeding and Genetics
- Equine Nutrition
- Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology
- Understanding Equine Action: From Anatomy to Behaviour.

Equine Nutrition

Astudio egwyddorion maetheg yng nghyswllt bwydo ceffylau i gael y twf, y datblygiad a'r perfformiad gorau posibl.

Equine Reproductive Physiology and Breeding Technology

Ystyried sut y caiff ffisioleg atgynhyrchu ei gymhwyso i'r broses o reoli ceffylau ar gyfer bridio, a'r ffordd y caiff technegau bridio datblygedig eu defnyddio yn hyn o beth.

Understanding Equine Action from Anatomy to Behaviour

Meithrin dealltwriaeth am anatomeg, ffisioleg ac ymddygiad ceffylau er mwyn gwella lles ceffylau, yn enwedig ceffylau perfformio.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

Gwyddor Da Byw

MSc

Mae'r radd hon yn cynnig hyfforddiant proffesiynol, biolegol a gwyddonol a fydd yn rhoi i chi'r wybodaeth a'r sgiliau y bydd eu hangen arnoch i ddilyn gyrfa lewyrchus yn y diwydiannau da byw, mewn ymchwil gwyddonol, gwasanaethau ymgynghorol ac mewn addysg.

Mae diogelwch bwyd yn holl bwysig i lwyddiant a sefydlogrwydd unrhyw wlad a'i phoblogaeth. Mae diwallu galw cynyddol y byd am fwyd yn un o heriau pwysicaf yr unfed ganrif ar hugain. Mae Gwyddor Da Byw yn elfen hanfodol o'r ymdrech i gwrdd â'r her hon, a bydd yn parhau i fod felly. Nid dim ond swmp y bwyd sy'n bwysig, ond ei ansawdd hefyd, gyda phrynnwyr yn parhau i fynnu cynnyrch o ansawdd uchel am bris fforddiadwy. Yr unig ffordd o fodloni'r gofynion hyn yw trwy ddatblygu a chyflwyno cysyniadau a syniadau arloesol, a hynny gan ôl-raddedigion sydd â'r cymwysterau addas ac a fydd yn bwrw ymlaen â'r datblygiadau cyffrous hyn mewn gwyddor a chynhyrchu da byw.

Byddwch yn elwa o:

- cyfle i ryngweithio ag ymchwilwyr o fri rhyngwladol a fydd o gymorth i chi i feithrin cysylltiadau ar gyfer eich gyrfa yn y dyfodol
- dysgu sy'n gallu manteisio ar 800 ha o dir ffermio, uned â 350 o wartheg godro, ac unedau defaid ar dir uchel a thir isel.

Cyflogadwyedd

Bydd graddedigion y rhaglen hon yn meithrin gwybodaeth fanwl a dealltwriaeth hanfodol o faterion cyfoes allweddol sy'n effeithio ar y Gwyddorau Da Byw. Byddwch yn meithrin sgiliau uwch ar gyfer datrys problemau, trin data, astudio, ymchwil a chyfathrebu. Mae ein graddedigion yn mynd ymlaen i yrfaoedd ym meysydd ymchwil wyddonol, argraffu gwyddonol, gwaith labordy, maetheg anifeiliaid, lles anifeiliaid, dysgu, bridio anifeiliaid a gwerthiant technegol. Hefyd, aeth graddedigion yn eu blaen i astudio cyrsiau PhD neu Feddygaeth Filfeddygol.

Ffeithiau allweddol

 **Math o radd:** MSc

 **Cod y cwrs:** D320

 **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

Gwyddorau Biolegol

MRes

Bydd y radd hon yn rhoi ichi'r cyfle i ddatblygu'r sgiliau, y wybodaeth a'r ddealltwriaeth feirniadol sy'n angenrheidiol i wneud gwaith ymchwil ym maes y gwyddorau biolegol.

Byddwch yn dysgu sut i wneud gwaith ymchwil rhagorol ac i werthfawrogi'r modd y gall ymchwil fynd i'r afael â'r heriau mawr ym maes bioleg yr ydym yn eu hwynebu fel cymdeithas.

Mae'r MRes Gwyddorau Biolegol ar gyfer myfyrwyr sy'n dymuno gwneud hyfforddiant ymchwil mewn unrhyw faes yn y gwyddorau biolegol ac yn fodd iddynt gael sgiliau generig a phenodol trwy fodiwlau a ddysgir a hyfforddiant ymchwil dan oruchwyliaeth. Mae'r hyfforddiant ymchwil yn adeiladu ar alluoedd Adran y Gwyddorau Bywyd mewn gwyddoniaeth newydd sy'n bwysig yn rhyngwladol ym mhob maes o'r biowyddorau, gan gynnwys amaethyddiaeth, atgynhyrchu anifeiliaid, biocemeg, bioleg esblygol, bioleg y dŵr, bioleg y gell, bridio planhigion ac anifeiliaid, ecoleg, ffisioleg, geneteg, gwyddor chwaraeon, gwyddor yr amgylchedd, iechyd ac ymarfer corff, microbiolog, parasitoleg, sŵoleg ac ymddygiad.

Elfen graidd y cwrs hwn yw'r Traethawd Hir MRes, sy'n gyfle ichi arbenigo mewn pwnc sydd o ddiddordeb i chi. Byddwch yn arbrofi/casglu data ynghyd â gwneud gwaith ymchwil dros gyfnod estynedig, o dan gyfarwyddyd eich goruchwyliwr. Drwy hynny, mae'r MRes yn gam delfrydol i'r rheini sy'n ystyried PhD a/neu yrfa mewn ymchwil.

Cyflogadwyedd

Trwy gydol y cwrs hwn byddwch yn datblygu sgiliau cadarn ar gyfer casglu/dehongli data, gwaith maes a gwaith labordy. Byddwch hefyd yn dysgu sut i weithio'n effeithiol ac yn annibynnol gan wella eich sgiliau rheoli prosiect er mwyn cyflawni cyfuniad heriol o ymchwilio, dadansoddi, cyfathrebu a chyflwyno.

Ffeithiau allweddol

 **Math o radd:** MRes

 **Cod y cwrs:** C190

Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Traethawd Hir.

Traethawd Hir

Cyfle ichi gyflawni astudiaeth archwiliadol fanwl a sylweddol mewn maes o'ch dewis.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Infection and Immunity
- Frontiers in the Biosciences
- Hot Topics in Parasite Control
- Ecological Monitoring
- Fundamentals of Biodiversity
- Field and Laboratory Techniques.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

 **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

Rheoli Bioamrywiaeth a Chadwraeth

MSc

Mae'r MSc mewn Rheoli Bioamrywiaeth a Chadwraeth yn diwallu anghenion y rhai sydd am fod yn weithwyr proffesiynol amgylcheddol yn y dyfodol ac yn denu myfyrwyr o bob cwr o'r byd.

Arweinir y cwrs gan ymchwil ac ymarfer, ac mae'n darparu dealltwriaeth gadarn am gefndir damcaniaethol bioamrywiaeth a gwyddor cadwraeth. Mae'r radd Meistr hon yn ddelfrydol i'r rhai sydd am ddilyn astudiaethau ôl-raddedig ym meysydd bioamrywiaeth, gwyddor amgylcheddol a chadwraeth. Mae hefyd yn addas i'r rhai sydd eisoes yn gweithio yn y sectorau hyn ac sy'n awyddus i gael cymwysterau perthnasol pellach neu i'r rhai sy'n gweithio mewn meysydd eraill ac sy'n dymuno dilyn gyrfa yn y maes hwn.

Byddwch yn elwa o:

- meithrin cysylltiadau â rhanddeiliaid ac ymarferwyr cadwraeth yn y byd go iawn, a gweithio ochr yn ochr â hwy
- ystod wych o gynefinoedd yn Aberystwyth a'i chyffiniau, o'r arfordir i'r ucheldir.

Cyflogadwyedd

Yn ogystal â datblygu llawer o'r sgiliau pwnc-benodol hanfodol, byddwch hefyd yn gwella eich sgiliau cyfathrebu gwyddonol, gwaith tîm, datrys problemau, trin data, astudio ac ymchwil. Byddwch yn datblygu eich proffesiynoldeb a'i arddel mewn ffordd a fydd yn eich galluogi i ragori mewn unrhyw weithle yn y dyfodol. Mae cyfleoedd gyrfaol ar gael mewn sefydliadau sy'n ymwneud â chadwraeth neu reoli amgylcheddol yn gyffredinol, megis: Cyfoeth Naturiol Cymru, Ymddiriedolaethau Bywyd Gwylt, Y Ganolfan Ecoleg a Hydroleg, RSPB, Yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Asiantaeth yr Amgylchedd, Adrannau awdurdodau lleol, Cyrrff anllwywodraethol. Mae llawer o fyfyrwyr hefyd wedi symud ymlaen i wneud Doethuriaeth.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Fundamentals of Biodiversity
- Ecological Management and Conservation Biology
- Ecological Monitoring
- Introduction to Environmental Law and EIA.

Fundamentals of Biodiversity

Yn datblygu eich sgiliau tacsonomeg hanfodol o'r dulliau morffolegol traddodiadol i'r technegau moleciwlaidd modern.

Ecological Monitoring

Yn rhoi'ch sgiliau tacsonomeg ar waith wrth i chi gynnal arolygon ar draws lleoliadau morol a thirrol mewn prosiectau monitro hirdymor.

Ecological Management and Conservation Biology

Byddwch yn gweithio mewn sefyllfaoedd go iawn gyda rhanddeiliaid cadwraeth ac amgylcheddol i ddatblygu, a phwyso a mesur yn feirniadol, reolaeth ecolegol ac arferion cadwraeth.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

Ffeithiau allweddol

 **Math o radd:** MSc

 **Cod y cwrs:** J790

 **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn) neu 2 flynedd (rhan-amser)

Rheoli Parasitiaid

MRes

Parasitiaeth yw'r ffordd o fyw fwyaf llwyddiannus ar y blaned ac mae'n esgor ar glefydau heintus amrywiol a hynod ddinistriol sydd ag arwyddocâd amaethyddol, milfeddygol a biofeddygol. Felly, mae cael gwell dealltwriaeth o'r rhywogaethau o barasitiaid sy'n gyfrifol am yr amgylchiadau hyn, a dysgu am y dulliau o'u rheoli, yn dal i fod yn flaenoriaeth i wyddonwyr, gweithwyr iechyd proffesiynol a ffermwyr yn yr 21ain ganrif.

Mae'r cwrs yn canolbwyntio'n benodol ar barasitiaid a'r afiechydon maen nhw'n eu hachosi, a byddwch yn meithrin gwybodaeth arbenigol am ganfod, atal a rheoli pathogenau anifeiliaid a dynol protosoaid yn ogystal â metasoaid. Cewch hyfforddiant mewn arbenigeddau megis biocemeg, bioleg foleciwlaidd, trin a meithrin celloedd/organebau cyfan, biowybodeg, proteomeg, trawsgrifomeg, genomeg, genomeg swyddogaethol, darganfod cyffuriau, datblygu brechlynnau, darganfod biofarcwyr, geneteg/epigeneteg, epidemioleg, ecoleg a bioleg fectorau/rhyng-letywyr. Ar ddiwedd y cwrs byddwch yn deall sut y gellir defnyddio dulliau rhyngddisgyblaethol i reoli rhai o'r organebau heintus mwyaf marwol ar y blaned a byddwch yn barod i ddilyn eich gyrfa mewn parasitoleg.

Cyflogadwyedd

Bydd y cwrs MRes hwn yn rhoi ichi amrywiaeth o sgiliau galwedigaethol ac yn eich paratoi am waith proffesiynol neu astudiaethau PhD ôl-raddedig pellach mewn Parasitoleg neu ddisgyblaethau cysylltiedig (er enghraifft, clefydau heintus, iechyd cyhoeddus, ac epidemioleg).

Byddwch yn datblygu sgiliau cadarn ar gyfer casglu a dehongli data, dadansoddi gwaith maes a gwaith labordy; gweithio mewn tîm, a dysgu i ysgrifennu ar gyfer cynulleidfaoedd yn amrywio o academyddion i'r cyhoedd ehangach. Byddwch yn gwella eich dull o feddwl yn feirniadol ac o ddatrys problemau, yn cyfarwyddo a chynnal rhaglen astudio y byddwch yn ei sefydlu eich hun, ac yn gloywi eich sgiliau rheoli prosiectau er mwyn darparu cyfuniad heriol o ymchwilio, dadansoddi, cyfathrebu a chyflwyno.

Ffeithiau allweddol

 **Math o radd:** MRes

 **Cod y cwrs:** C111

 **Hyd:** 1 flwyddyn (amser llawn)

Modiwlau

Dyma rai o'r modiwlau craidd y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Hot Topics in Parasite Control
- Infection and Immunity
- MRes Dissertation.

Hot Topics in Parasite Control

Rhoi dealltwriaeth ddatblygedig o ddamcaniaethau a thechnegau cyfoes, a'r ymchwil biolegol sy'n sail iddynt, yng nghyswllt rheoli clefydau parasitig.

Infection and Immunity

Gwneir ymchwil manwl i imiwnoleg, bacterioleg, firoleg, a pharasitoleg anifeiliaid ar lefel foleciwlaidd a chymhwysol.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

Dysgu o Bell IBERS

Wedi'i sefydlu yn 2012, mae gan Ddysgu o Bell IBERS hanes rhagorol o hyfforddi gweithwyr proffesiynol bwyd-amaeth. Ein nod yw cefnogi'r sector i fod yn fwy cynaliadwy a gwydn trwy ei helpu i fabwysiadu dulliau economi gylchol. Mae ein modiwlau ar-lein sydd wedi'u curadu'n ofalus yn cyflwyno'r syniadau diweddaraf i chi mewn arferion a thechnolegau cynaliadwyedd yn ogystal â'r offer cyfathrebu i'ch galluogi i drosglwyddo'r wybodaeth hon yn effeithiol. Ein nod yw cefnogi'r sector i fod yn fwy cynaliadwy a gwydn trwy ei helpu i fabwysiadu dulliau economi gylchol.

Mae fformat 'talw wrth fynd', 'dewis a chymysgu' yn golygu y gallwch astudio modiwlau unigol neu adeiladu at ystod o gymwysterau ôl-raddedig. Felly, os oes gennych ddiddordeb mewn syniadau megis: cadwyni cyflenwi byrrach, lleihau gwastraff ac offer i nodi cyfoethfannau carbon, mewn sectorau sy'n amrywio o gig a llaeth i ffermio fertigol, efallai mai hon yw'r rhaglen i chi!

Amaethyddiaeth Cwrs dysgu o bell

MRes

Mae'r radd hon yn rhoi cyfle i fyfyrwyr sydd eisiau ymgymryd â hyfforddiant ymchwil mewn unrhyw faes amaethyddol ymwneud â sgiliau cyffredinol a phenodol drwy gyfrwng modiwlau a ddysgir a hyfforddiant ymchwil dan oruchwyliaeth, drwy ddysgu o bell.

Er bod pob modiwl yn ymdrin ag arbenigedd technegol gwahanol, mae pob un yn rhoi sylw i'r heriau sy'n wynebu systemau cynhyrchu sy'n seiliedig ar dir pori ac ar atebion posib i'r heriau hynny. Mae'r MRes yn gam delfrydol i'r rhai sy'n ystyried gwneud gradd DAG a/neu ddatblygu eu gyrfa o safbwynt ymchwil.

Amser cyswllt

Rydym wedi cynllunio ein hyfforddiant i fod mor hygyrch â phosib, yn enwedig i bobl sydd mewn cyflogaeth amser llawn. Mae pob modiwl a ddysgir yn rhedeg am 14 wythnos trwy ddysgu o bell a gellir eu hastudio at ddibenion datblygu proffesiynol parhaus neu o ran diddordeb, neu cewch eu cynnwys yn rhan o gymhwyster ôl-raddedig. Disgwylir i fyfyrwyr ôl-raddedig nodweddiadol astudio am 200 awr ar gyfer modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio tua 2-3 awr yr wythnos ar ddarlithoedd ar-lein, cyflwyniadau a phodlediadau, a gweddill yr amser yn darllen testunau ac yn gweithio ar aseiniadau.

Byddwch yn cwblhau elfennau ymchwil ein cymwysterau yn eich gweithle gyda goruchwyliaeth academiaidd reolaidd. Mae deunydd dysgu ar gyfer pob modiwl 14 wythnos yn cynnwys darlithoedd wedi'u recordio gan academyddion ac arbenigwyr yn y diwydiant, cyflwyniadau, podlediadau, prosiectau e-grŵp, darlleniadau dan arweiniad, llyfrau gwaith rhyngweithiol a fforymau trafod, yn ogystal ag aseiniadau ac e-diwtorialau.

Aseiniadau

Does dim arholiadau yn rhan o'r cwrs hwn. Asesir modiwlau a ddysgir drwy waith cwrs a thrafodaethau fforwm. Caiff ymchwil ei fonitro a'i asesu.

Modiwlau

Ar y radd hon byddwch yn astudio Research Methods a Research Project ymhlith y modiwlau craidd.

Byddwch hefyd yn dewis o blith casgliad o fodiwlau eraill, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Business Management for Rural Entrepreneurs
- Genetics and Genomics in Agriculture
- Grassland Systems
- Organic and Low Input Ruminant Production
- Plant Breeding
- Ruminant Gut Microbiology
- Livestock Health and Welfare
- Livestock Production Science
- Silage Science.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

Ffeithiau allweddol



Math o radd: MRes



Cod y cwrs: D410D



Hyd: Hyd at 5 mlynedd (Dysgu o bell). Hefyd ar gael fel gradd 3 blynedd Dysgu o bell.

Amaethyddiaeth Gynaliadwy Cwrs dysgu o bell

MSc, Diploma, Tystysgrif

Mae'r cwrs gradd hwn yn canolbwyntio ar ffyrdd o gynyddu effeithiolrwydd a lleihau'r effaith amgylcheddol ar draws y sector cynhyrchu sy'n seiliedig ar borfeydd.

Mae'r rhaglen yn rhoi hyfforddiant ôl-raddedig hyblyg a hygyrch i unigolion sy'n gweithio yn y sector bwyd-amaeth. Mae'r hyfforddiant yn cynnwys modiwlau dysgu o bell a phrosiectau ymchwil sy'n seiliedig ar waith. Gellir astudio'r rhain at ddibenion datblygu proffesiynol parhaus neu fel unedau sy'n cynnig credydau y gellir eu casglu er mwyn ennill cymwysterau ôl-raddedig.

Amser cyswllt

Rydym wedi cynllunio ein hyfforddiant i fod mor hygyrch â phosib, yn enwedig i bobl sydd mewn cyflogaeth amser llawn. Mae pob modiwl a ddysgir yn rhedeg am 14 wythnos trwy ddysgu o bell a gellir eu hastudio at ddibenion datblygu proffesiynol parhaus eich hunain, neu o ran diddordeb, neu cewch eu cynnwys yn rhan o gymhwyster ôl-raddedig.

Disgwylir i fyfyrwr ôl-raddedig nodweddiadol astudio am 200 awr ar gyfer modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio tua 2-3 awr yr wythnos ar ddarlithoedd ar-lein, cyflwyniadau a phodlediadau, a gweddill yr amser yn darllen testunau ac yn gweithio ar aseiniadau. Mae deunydd dysgu ar gyfer pob modiwl 14 wythnos yn cynnwys darlithoedd wedi'u recordio gan academyddion ac arbenigwyr yn y diwydiant, cyflwyniadau, podlediadau, prosiectau e-grŵp, darlleniadau dan arweiniad, llyfrau gwaith rhyngweithiol a fforymau trafod, yn ogystal ag aseiniadau ac e-diwtorialau.

Asesiadau

Does dim arholiadau yn rhan o'r cwrs hwn. Asesir modiwlau a ddysgir drwy waith cwrs (adroddiadau a thraethodau yn benodol, ond hefyd adolygiadau llenyddol, astudiaethau achos, cynigion ymchwil a thasgau dadansoddi data), cyflwyniadau a thrafodaethau fforwm.

Ffeithiau allweddol



Math o radd: MSc, Diploma, Tystysgrif



Cod y cwrs: D413D



Hyd: Hyd at 5 mlynedd (Dysgu o bell). Hefyd ar gael fel gradd 3 blynedd Dysgu o bell (D413D3).

Modiwlau

Ar y radd hon byddwch yn astudio modiwlau Research Methods a'r traethawd hir.

Byddwch hefyd yn dewis nifer o fodiwlau o blith casgliad, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Business Management for Rural Entrepreneurs
- Genetics and Genomics in Agriculture
- Grassland Systems
- Plant Breeding
- Livestock Health and Welfare
- Livestock Production Science
- Silage Science
- Low Carbon Livestock
- Soil Science.

Dim ond i gyn-fyfyrwr neu fyfyrwr presennol Nuffield Scholars y mae'r modiwlau ychwanegol canlynol ar gael:

- Nuffield Scholarship Project (New Awards)
- Nuffield Scholarship Project (Post-Completion).

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.



Arloesi Bwyd-Amaeth



Cwrs dysgu o bell

MSc

Mae'r rhaglen yn canolbwyntio ar hwyluso'r llif o wybodaeth ar hyd y gadwyn gyflenwi mewn bwyd-amaeth.

Bydd y cynllun astudio hwn yn rhoi dealltwriaeth fanwl i fyfyrwyr am yr heriau sy'n wynebu'r sector bwyd-amaeth ac yn rhoi'r sgiliau technegol a chyfathrebu iddynt fel y gallant ysbarduno gwaith arloesol ac arwain wrth gyflwyno newidiadau. Bydd y modiwlau dewisol yn galluogi myfyrwyr i graffu'n fanylach ar agweddau penodol o'r gadwyn gyflenwi a/neu i ehangu eu hystod o sgiliau cyfathrebu. Bydd yr holl fyfyrwyr yn datblygu sgiliau ymchwil a'u rhoi ar waith drwy gynnal prosiect ymchwil yn seiliedig ar y gweithle. Fel rheol mae'r modiwlau sy'n seiliedig ar weithdai yn cynnwys dylunio tasg ymarferol a'i rhoi ar waith yn rhan o'r asesiadau.

Amser cyswllt

Caiff yr holl fodiwlau academiaidd eu cynnal drwy gyfrwng dysgu o bell ar-lein. Mae pob modiwl yn cynnwys darlithoedd wedi'u recordio gan academyddion ac arbenigwyr yn y diwydiant, yn ogystal â chyflwyniadau, podlediadau, projectau e-grŵp, darlenniadau tywysedig, gwrslyfrau rhyngweithiol a fforymau trafod, ac aseiniadau ac e-sesiynau tiwtora. Mae'r modiwlau a seilir ar weithdai yn cynnwys dau weithdy deuddydd ac un sesiwn derfynol undydd. Disgwylir i fyfyrwr ôl-raddedig astudio am 200 awr wrth ddilyn modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio 2-3 awr yr wythnos yn fras ar ddarlithoedd, cyflwyniadau a phodlediadau ar-lein, a gweddill yr amser yn darllen testunau ac yn gweithio ar aseiniadau.

Asesiadau

Nid oes arholiadau yn y rhaglen hon. Asesir y modiwlau a ddysgir drwy waith cwrs (sef adroddiadau a thraethodau, ond hefyd adolygiadau o destunau perthnasol, astudiaethau achos, cynigion ymchwil a thasgau dadansoddi data), aseiniadau ar-lein, cyflwyniadau a fforymau trafod. Fel rheol mae'r modiwlau a seilir ar weithdai yn cynnwys dylunio tasg ymarferol a'i rhoi ar waith yn rhan o'r asesiadau.

Ffeithiau allweddol



Math o radd:
MSc, Diploma,
Tystysgrif



Cod y cwrs:
D67ND



Hyd: Mae myfyrwyr yn cofrestru am 5 mlynedd (Dysgu o bell) ond mae'n bosibl gorffen mewn 3 blynedd.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Sustainable Supply Systems
- Research Methods
- Traethawd Hir yn y Gweithle.

Byddwch hefyd yn astudio pedair modiwl dewisol o blith y detholiad o fodiwlau sydd ar gael, gan gynnwys, ar hyn o bryd:

- Leading Change
- Coaching and Mentoring for Leaders
- Waste Resource Management
- Facilitation for Organisation Leadership
- Controlled Environment Agriculture
- Behaviour Change
- Livestock Nutrition
- Grassland Systems
- Livestock Production
- Silage Science
- Genetics and Genomics in Agriculture
- Livestock Health and Welfare
- Low Carbon Livestock
- Business Management for Rural Entrepreneurs
- Plant Breeding.

Gallwch ddewis modiwlau ychwanegol o Brifysgol Abertawe gyda modiwlau ychwanegol ar gael i i gyn-fyfyrwyr neu fyfyrwyr presennol Nuffield Scholars.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.



Arloesi Bwyd-Amaeth Cwrs dysgu o bell

MRes

Mae'r MRes Arloesi Bwyd-Amaeth yn rhannu'r syniadau diweddaraf ynghylch yr Economi Gylchol ac mae'n ddelfrydol ar gyfer unrhyw un sydd â diddordeb mewn integreiddio'r ethos hwn i ymarfer neu bolisi bwyd-amaeth. Wedi'i anelu at y rhai sy'n gweithio gyda chadwyni cyflenwi bwyd-amaeth Cymru neu oddi mewn iddynt, mae'r cwrs hwn yn rhoi mwy o bwyslais ar ymchwil nag ar elfennau a ddysgir, ac mae'n gam delfrydol i'r rhai sy'n ystyried datblygu'r agwedd ymchwil ar eu gyrfa.

Amser cyswllt

Rydym wedi cynllunio ein hyfforddiant i fod mor hygyrch a phosib, yn enwedig i bobl sydd mewn cyflogaeth amser llawn. Mae pob modiwl a ddysgir yn rhedeg am 12-14 wythnos trwy ddysgu o bell a gellir eu hastudio at ddibenion datblygu proffesiynol parhaus neu o ran diddordeb, neu cewch eu cynnwys yn rhan o gymhwyster ôl-raddedig. Disgwylir i fyfyrwr ôl-raddedig nodweddiadol astudio am 200 awr ar gyfer modiwl 20 credyd. Dylech ddisgwyl treulio tua 2-3 awr yr wythnos ar ddarlithoedd ar-lein, cyflwyniadau a phodlediadau, a gweddill yr amser yn darllen testunau ac yn gweithio ar aseiniadau.

Byddwch yn cwblhau elfennau ymchwil ein cymwysterau yn eich gweithle gyda goruchwyliaeth academiaidd reolaidd. Cynhelir yr hyfforddiant ar y we, sy'n golygu cyhad a bod gennych fynediad at gysylltiad band eang rhesymol (hynny yw, eich bod yn gallu ffrydio fideos ar YouTube er enghraifft), gallwch astudio ble a phryd bynnag sydd orau gennych chi. Mae'r deunydd dysgu yn cynnwys darlithoedd ar ffurf podlediadau, prosiectau e-grwpiau, darllen tywysedig, gweithlyfrau rhyngweithiol a fforymau trafod, ynghyd ag aseiniadau ac e-diwtorialau.

Asesiadau

Does dim arholiadau yn rhan o'r rhaglen hon. Asesir modiwlau a ddysgir trwy waith cwrs a thrafodaethau fforwm. Caiff ymchwil ei fonitro a'i asesu.

Ffeithiau allweddol

 **Math o radd:** MRes

 **Cod y cwrs:** J792D

 **Hyd:** Mae myfyrwr yn cofrestru am 5 mlynedd (Dysgu o bell) ond mae'n bosibl gorfennu mewn 3 blynedd.

Modiwlau

Dyma'r modiwlau craidd y mae'n bosibl y byddwch yn eu hastudio ar y cwrs hwn:

- Research Methods
- Research Project
- Traethawd Hir.

Bydd modd i chi ddewis dau fodiwl dewisol o blith amrywiaeth o fodiwlau, sydd ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Waste Resource Management
- Meat Processing
- Sustainable Supply Systems
- Future of Packaging
- Life Cycle Assessment and Beyond
- Controlled Environment Agriculture
- Behaviour Change
- Livestock Health and Welfare
- Genetics and Genomics in Agriculture
- Biorefining Technologies
- Precision Livestock.

I gael rhagor o fanylion a'r wybodaeth ddiweddaraf am ein modiwlau, ewch i'n gwefan.

Gwyddor Da Byw Cwrs dysgu o bell

Tystysgrif

Mae diogelu cyflenwadau bwyd yn hanfodol i lwyddiant a sefydlogrwydd unrhyw wlad a'i phoblogaeth. Mae ateb y galw cynyddol am fwyd ledled y byd ymhlith heriau pwysicaf yr 21ain ganrif.

Mae Gwyddor Da Byw yn ganolog i wynebu'r her honno, yn awr ac yn y dyfodol. Mae swmp y bwyd a gynhyrchir yn bwysig, ond pwysig hefyd yw ei ansawdd, gyda chwsmeriaid yn dal i fynnu cynnyrch o ansawdd uchel am bris fforddiadwy. Yr unig ffordd y gellir ateb y galw hwnnw yw bod graddedigion sydd â chymwysterau addas yn datblygu cysyniadau a syniadau arloesol, a'u rhoi ar waith. Y graddedigion hynny hefyd fydd yn gyrru'r datblygiadau cyffrous hyn yn eu blaen ym meysydd gwyddor da byw a chynhyrchu da byw.

Bydd y Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Gwyddor Da Byw yn rhoi i chi brofiad o addysg ôl-raddedig o ansawdd uchel ym meysydd maeth da byw a chynhyrchu da byw, yn ogystal â gwyddor glastir. Dysgir y cwrs hwn gan wyddonwyr blaenllaw yn eu meysydd, a byddwch yn dysgu am y datblygiadau gwyddonol diweddaraf yn y tri maes creiddiol hyn o ymchwil i dda byw ac anifeiliaid. Mae'r lefel ddatblygedig o wybodaeth am y pwnc a'r cymhwyster ei hun wedi'u cydnabod yn eang gan broffesiynau gwyddor da byw/anifeiliaid a ffermio.

Amser cyswllt

Mae ein rhaglenni wedi'u cynllunio i fod mor hygyrch a hyblyg â phosib, yn enwedig i'r rhai sydd mewn gwaith llawn-amser neu sy'n byw y tu allan i Brydain. Os oes gennych gyswllt â'r rhyngwrdd gallwch astudio lle bynnag a phryd bynnag sy'n gyfeus i chi, sy'n golygu y gallwch ddiweddarw'ch gwybodaeth a datblygu'ch sgiliau beirniadol. Mae pob modiwl 14-wythnos yn cynnwys darlithoedd wedi'u recordio gan academyddion ac arbenigwyr yn y diwydiant (lle bo'n bosibl), ynghyd â darlleniadau dan arweiniad, fforymau trafod ac aseiniadau ysgrifenedig. Byddwch yn cwblhau tri modiwl 20-credyd er mwyn ennill y Dystysgrif Ôl-raddedig mewn Gwyddor Da Byw.

Asesu

Nid oes arholiadau yn y rhaglen hon. Asesir y modiwlau a ddysgir drwy aseiniadau ysgrifenedig (astudiaethau achos, cynigion ymchwil, beirniadaethau ymchwil, traethodau ac adroddiadau).

Ffeithiau allweddol

 **Math o radd:** Tystysgrif

 **Cod y cwrs:** D321D

 **Hyd:** 12 mis



MPhil, PhD, DAg, DProf

Rydym yn cynnig graddau MPhil, DAg (Doethuriaeth Broffesiynol drwy Ddysgu o bell), PhD a DProf ac ynddynt caiff myfyrwyr eu harwain a'u hyfforddi yn yr ystod eang o sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddod yn wyddonwyr ymchwilio yn yr 21ain ganrif.

Mae ein myfyrwyr yn dod yn rhan o amgylchedd ymchwil amlddisgyblaethol sy'n cwmpasu ymchwil sylfaenol ac ymchwil sy'n gysylltiedig â masnach, a hynny yn y gwyddorau amaethyddol, gwledig, amgylcheddol a biolegol.

Rydym yn ymwneud â gwyddoniaeth sy'n bwysig yn rhyngwladol yn y meysydd canlynol:

- gwyddorau planhigion, anifeiliaid a microbau
- amaethyddiaeth
- bioleg celloedd a fffioleg
- biocemeg
- genomeg
- biowybodeg
- parasitoleg
- bioleg dŵr croyw a dŵr y môr
- ecoleg
- bridio/atgynhyrchu planhigion ac anifeiliaid
- prosesau esblygiadol.

MPhil a PhD

Mae'r rhain yn canolbwyntio ar brosiectau ymchwil sy'n astudiaethau manwl iawn mewn maes penodol sy'n cyd-daro â diddordebau ymchwil y Brifysgol. Mae'r gwaith a gynhrychir yn waith gwreiddiol y gellir ei gyhoeddi, ac mae canlyniadau'r ymchwil yn cael eu cyflwyno mewn traethawd ymchwil a thrwy arholiad llafar. Rhaid i fyfyrwyr ymchwil amser llawn fod yn Aberystwyth am o leiaf 44 wythnos y flwyddyn.

DAg a DProf

Mae'r rhaglenni Doethuriaeth Proffesiynol hyn yn cynhyrchu cymwysterau sydd, er eu bod yn gyfwerth mewn statws a her i radd PhD, yn fwy priodol i'r rhai sy'n dilyn gyrfaedd proffesiynol yn hytrach nag academiaidd. Mae ein rhaglenni Doethuriaeth Proffesiynol yn cynnwys tri modiwl a ddysgir a gynhelir trwy ddysgu o bell a dau brosiect ymchwil seiliedig ar waith a gefnogir trwy gyfarfodydd goruchwyllo wyneb yn wyneb a rhithiol. Er mai ar gwblhau darn datblygedig o ymchwil y mae'r prif bwyslais academiaidd, mae'r llwybr cydweithrediadol sy'n cael ei ddarparu trwy brosiect seiliedig ar waith yn rhoi cyfle delfrydol i ymgorffori gwybodaeth newydd yn y gweithle a sicrhau bod yr ymchwil yn berthnasol i ddiwydiant.

I gael rhagor o wybodaeth, gweler y tudalennau 'Sut i wneud cais' neu cysylltwch â ni.

Ein hymchwil

Mae'r hyfforddiant ymchwil i ôl-raddedigion, a'r prosiectau ymchwil yn y graddau Meistr a ddysgir, yn cael eu cwblhau gyda chymorth arolygwyr sydd yn aelodau o un neu fwy o grwpiau ymchwil yr Adran, sydd, gyda'i gilydd, yn ymdrin â phedair her allweddol i'r gymdeithas, sef amaethyddiaeth gynaliadwy, newid yn yr hinsawdd, iechyd anifeiliaid a phobl, a bioamrywiaeth.

Dyma'r grwpiau ymchwil:

Amaethyddiaeth gynaliadwy a bywyd iach

- **Amaethyddiaeth gynaliadwy ar lastiroedd** - deall yr effaith y mae cynnyrch da byw yn ei chael ar yr amgylchedd, datblygu codlysiau porthiant i ddarparu protein cynaliadwy, cadwraeth ffrwythlondeb y pridd a gwasanaethau ecosystemau.
- **Gwyddor ffenomig ac amaethyddiaeth mewn amgylchedd a reolir** - deall sut mae planhigion yn ymateb i'w hamgylchedd, mewn caeau neu mewn amgylcheddau a reolir.
- **Bridio planhigion at y dyfodol** - datblygu amrywiadau newydd o gnydau gan ddefnyddio technolegau bridio confensiynol a rhai newydd moleciwlaidd er mwyn gwella perfformiad a nodweddion ansawdd, i leihau effaith amaeth ar yr amgylchedd, a chyflymu'r cynnydd tuag at ymdrin ag elfennau sy'n peri straen anfiotig a biotig.
- **Deiet ac iechyd** - cysylltu bwydydd ag effeithiau deiet ac ymarfer corff ar iechyd a salwch, heneiddio a rheoli cyflyrau meddygol hirdymor.

Ymaddasu at newid yn yr hinsawdd a lliniaru ei effeithiau


- **Lleihau nwyon tŷ gwydr mewn amaethyddiaeth da byw** - helpu'r Deyrnas Gyfunol i daro ei tharged o gyrraedd sefyllfa sero-net o ran allyriannau nwyon tŷ gwydr erbyn 2050
- **Cnydau ar gyfer ynni a deunyddiau cynaliadwy** - datblygu ffynonellau cynaliadwy o fomas ar gyfer ynni a deunyddiau cynaliadwy, a hynny wrth leihau allyriannau nwyon tŷ gwydr (bio-ynn timer gan ddal a storio carbon (BECCS)) a darparu buddiannau i ecosystemau a fydd yn cynnwys dal carbon a'i storio.
- **Adnoddau naturiol a'r economi gylchol** - sicrhau cyn lleied o wastraff â phosib drwy dechnolegau atgynhyrchiol, megis drwy bioburo (yng Nghanolfan Fiobüro BEACON) ac adfachu cyfansoddion.
- **Effeithiau ar amgylchedd y môr ac atebion posib** - deall sut mae rhywogaethau yn ymateb i amgylcheddau wrth iddynt newid, a sut mae newidiadau o ran demograffeg, dosraniadau daearyddol, ac amrywiaeth genetig yn rhyngweithio â straeniau naturiol ac anthropogenig i effeithio ar gynaliadwyedd systemau ac adnoddau morol.

Iechyd anifeiliaid a dynol cydgyssylltiedig

- **Parasitoleg a rheoli llyngyr** - astudio amryw afiechydon heintus a achosir gan feirysau, bacteria, protosoa, microsporidia a llyngyr; cydweithio â phartneriaid mewn gwledydd datblygedig, ac isel a chanolog eu hincwm, a hynny ar draws sefydliadau academaidd, llywodraethol a phreifat.
- **Twbercwlosis buchol: canfod, diogelu a rheoli** - deall bioleg haint Mycobacterium bovis er mwyn darparu sail i ddatblygu a defnyddio profion diagnostig a brechlynnau newydd, a rhoi cyngor a chefnogaeth arbenigol i'r llywodraethau a rhanddeiliaid allweddol eraill ynghylch dileu bTB.
- **Epidemioleg** - astudio dosraniad a phenderfynyddion digwyddiadau sy'n gysylltiedig ag iechyd mewn poblogaethau dynol ac anifeiliaid (yn enwedig anifeiliaid amaeth a gwyllt yng Nghymru) ar y graddfeydd macrosgopig a microsgopig drwy ymchwilio ar lefel y boblogaeth yn hytrach na'r unigolyn.
- **Un iechyd a milheintiau** - gweithio ar brosiectau yng Nghymru ac yn rhyngwladol i wella iechyd a lles drwy atal risg a lliniaru effeithiau argyfyngau wrth y rhyngwyneb rhwng pobl, anifeiliaid a'u hamryw amgylcheddau.

Bioamrywiaeth - ymchwilio a chadwraeth

- **Cadwraeth a rheolaeth ar adnoddau naturiol** - dyfnhau ein gwbyodaeth am sut mae dulliau rheoli yn effeithio ar ddarpariaeth cyfalaf naturiol a gwasanaeth ecosystemau e.e. darparu dŵr yfed a lliniaru effeithiau llifogydd, dal carbon a'i storio yn y pridd, rheoli tirweddau a threftadaeth, a bioamrywiaeth.
- **Deall ac adfer ecosystemau a'u gwasanaethau** - astudio sut mae gweithgareddau pobl wedi niweidio adnoddau naturiol neu sut mae newid yn yr hinsawdd wedi effeithio arnynt. Datblygu strategaethau i'w hadfer, gan gynnwys bioadfer systemau sydd wedi'u llygru, rheoli'r tir er mwyn sicrhau ei fod yn cadw mwy o ddŵr, addasu cyfansoddad cymunedau planhigion i wella eu gwytnwch yn wyneb hinsawdd eithafol, ac ymyrryd er mwyn atal rhywogaethau ymledol.
- **Ecoleg ac esblygu, poblogaethau i ecosystemau** - deall sut mae newidynnau newid yn yr hinsawdd (tymheredd, CO₂, asideiddio'r cefnforoedd ac ymbelydredd uwchfioled) yn effeithio ar ecosystemau, a datblygu strategaethau ar gyfer cadwraeth a rheolaeth ar rywogaethau, cynefinoedd ac ecosystemau.



Uchafbwyntiau ymchwil

Rhwydwaith Pencampwyr Rhagnodi Milfeddygol

Mae Rhwydwaith Pencampwyr Rhagnodi Milfeddygol, sydd wedi'i arwain gan Dr Gwen Rees o Brifysgol Aberystwyth yn gweithio i helpu milfeddygon i ragnodi gwrthfotigau'n gyfrifol a gwella eu heffeithiolrwydd. Drwy hyfforddiant, rhoi technoleg newydd ar waith, casglu data, a gwella dealltwriaeth, mae'r rhaglen yn annog a dangos ffyrdd o leihau'r angen i ddefnyddio gwrthfotigau a'r risg o ddatblygu ymwrthedd gwrthficrobaidd.

Mae'r rhaglen eisoes wedi rhoi cipolwg newydd i ni ar ddatblygiad a lledaeniad ymwrthedd gwrthficrobaidd, ac mae'r rhwydwaith yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i sut mae gwrthfotigau'n cael eu defnyddio yma yng Nghymru.



Gallai tyfu cnydau dan do fod yn rhan allweddol o ddiogelwch bwyd y dyfodol


Ffermio fertigol yw'r broses o gynhyrchu bwyd drwy ei dyfu ar haenau wedi'u pentyrru o fewn amgylcheddau wedi'u rheoli dan do. Mae'r dull hwn o dyfu bwyd yn helpu ffermwyr i gynhyrchu llawer mwy ar yr un faint o dir a lleihau'r effaith amgylcheddol, ac i osgoi her digwyddiadau tywydd eithafol y dyfodol.

Mae'r dechnoleg hon yn hanfodol er mwyn mynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd o ganlyniad i newid hinsawdd. Gallai ffermio fertigol fod yn rhan allweddol o'n systemau cynhyrchu bwyd yn y dyfodol. Un o'r agweddau yr ydym ni'n edrych arno yw'r gallu i newid cynhyrchiant bwyd i amgylcheddau rheoledig yn gyflym.

Sgriniau cyffwrdd ar gyfer ceffylau

Mae profion gwybyddol yn caniatáu ymchwilio i ranbarthau penodol o'r ymennydd a, gan ddefnyddio technoleg sgrin gyffwrdd ar y cyd â meddalwedd penodol, mae'n darparu offer unigryw i fesur gwybyddiaeth ceffylau a swyddogaeth yr ymennydd o dan amodau amgylcheddol gwahanol.

Mae ymchwil cyfredol yn Aberystwyth yn asesu sut y gall amgylcheddau newydd effeithio ar gwsgeffylau a sut mae hyn yn amlygu ei hun wedyn fel newidiadau mewn gwybyddiaeth. Bydd ymchwil pellach sy'n defnyddio'r dechnoleg yn asesu a ellir canfod iselder mewn ceffylau trwy newidiadau mewn gallu gwybyddol.



Lluniau:
Sebastian
McBride



Dadansoddiad DNA amgylcheddol i nodi cyfoethfannau trosglwyddo llyngyr yr afu ar ffermydd

Mae ein gwyddonwyr wedi datblygu dull arloesol ar gyfer dadansoddi DNA mewn samplau amgylcheddol i ganfod presenoldeb parasitiaid llyngyr sy'n heintio gwartheg a defaid a'u malwod lletyol rhyngol.

Mae'r dechneg hon bellach yn cael ei defnyddio mewn prosiect ymchwil mawr sy'n ymchwilio i ddeinamig haint llyngyr yr afu ar ffermydd Cymru a chanfyddiad ffermwyr o gyfoethfannau trosglwyddo clefydau a dichonoldeb strategaethau rheoli, a bydd pob un ohonynt yn arwain at ddatblygu modelau risg heintiau llyngyr yr afu newydd a chanllawiau rheoli cynaliadwy.



Llun: Rhys Jones

Y Frenhines yn rhoi gwobr i Brifysgol Aberystwyth am ymchwil parasitoleg

Mae'r Frenhines Camilla wedi cyflwyno gwobr o fri i Brifysgol Aberystwyth am ei gwaith parasitoleg arloesol mewn seremoni ym Mhalas Buckingham. Mae'r anrhydedd frenhinol yn cydnabod gwaith gwyddonwyr yn Adran Gwyddorau Bywyd y Brifysgol sy'n arbenigo ar grŵp penodol o lyngyr lledog parasitig sy'n achosi clefydau distrywiol fel Sgistosomiasis mewn pobl a Ffasgiolosis mewn da byw.

Mae Sgistosomiasis yn glefyd trofannol sydd fel rheol yn lledaenu drwy gysylltiad â dŵr ffres wedi'i heintio, gan ladd tua 12,000 o bobl a heintio mwy na 200 miliwn bob blwyddyn. Mae Ffasgiolosis yn effeithio ar fwy na 300 miliwn o wartheg a 250 miliwn o ddefaid yn fyd-eang, gyda cholledion i'r diwydiant amaeth o dros £2.5 biliwn y flwyddyn.



Is-Ganghellor Prifysgol Aberystwyth yr Athro Jon Timmis yn derbyn y wobwr gan Ei Mawrhydi'r Frenhines ym Mhalas Buckingham.

Ydy te gwyRDD yn gallu atal clefydau mewn pobl hŷn?

Mae gwyddonwyr ym Mhrifysgol Aberystwyth yn profi sut y gall maetholion mewn te gwyRDD effeithio ar afiechydon sy'n gysylltiedig â heneiddio drwy fonitro gweithgaredd ymennydd pobl. Wrth i ni heneiddio mae ein corff yn mynd yn llai abl i brosesu maetholion o'n diet ac mae hyn yn cyfrannu at rai o'r anawsterau iechyd y gallwn ni eu profi wrth i ni heneiddio.

"Mae gwella iechyd pobl hŷn yn ffocws mawr i lawer o'n gwaith dietegol, iechyd a bywyd y dyfodol yma yn Aberystwyth. Rydyn ni'n gwybod y gall diet wneud gwahaniaeth mawr o ran gwella lles pobl, lleihau salwch ac, yn ei dro, leihau'r pwysau ar ein gwasanaeth iechyd. Dyna pam mae'r math hwn o ymchwil mor bwysig." (Dr Amanda Lloyd o Adran y Gwyddorau Bywyd)



Bywyd hwyr y nos cyfrinachol microbau'r Arctig yn destun ymchwil gan wyddonwyr

Mae academyddion o Brifysgol Aberystwyth yn ymweld â'r Svalbard yn yr Arctig i ymchwilio i fywyd hwyr y nos microbau. Nod ein hymchwiliad yw cynnig darlun clir o sut mae bywyd yn goroesi pob tymor ar rewlifoedd yr Arctig a beth mae hyn yn ei olygu i ecoleg y rhewlifoedd wrth iddynt wynebu dyfodol ansicr yn yr Arctig sy'n cynhesu. Mae'n ardal heriol i gynnal ymchwil ynddi, ond mi all datgloi cyfrinachau'r microbau sy'n byw yn y rhewlifoedd yn yr Arctig gynnig atebion pwysig i ni am sut mae'r hinsawdd yn newid. Gallai hefyd ddatgelu meddyginiaethau posibl ar gyfer y dyfodol a hyd yn oed rhoi gwybod i ni am sut i olchi ein dillad gan ddefnyddio cynhyrchion sydd yn fwy cyfeillgar i'r amgylchedd.

£1 miliwn ar gyfer ymchwil ar brawf diagnosis cynnar o ganser yr ysgyfaint

Mae gwaith gwyddonwyr i ddatblygu pecyn diagnosis cyflym newydd er mwyn canfod canser yr ysgyfaint yn gynharach wedi derbyn hwb gyda grant gwerth £1 miliwn. Mae canser yr ysgyfaint yn effeithio ar bron i 50,000 o bobl y flwyddyn yn y Deyrnas Gyfunol, yn lladd mwy o bobl nag unrhyw ganser arall ac yn costio mwy na £2.4bn y flwyddyn i'r gwasanaeth iechyd. Mae'r tîm eisoes wedi adnabod biofarcwyr mewn wrin sy'n gallu gwneud diagnosis o nifer o ganserau a chlefydau eraill. Gall hefyd nodi ym mha gyfnod y mae'r afiechyd mewn claf.



Dr Arwyn Edwards yn ymchwilio ar Svalbard. Llun: Klemens Weisleitner.



Llygredd gwrthfotig yn tarfu ar ficrobiom y perfedd ac yn rhwystro cof malwod dyfrol

Mae'r dŵr gwastraff sy'n mynd i mewn i'n nentydd a'n hafonydd yn cynnwys cymysgedd o gemegau a ddefnyddir i drin pobl ac anifeiliaid. Mae ymchwil Dr Sarah Dalesman yn dangos y gall llygredd gwrthfotig newid y microbiom ym mherfedd anifeiliaid dyfrol er anfantais i'w goroesiad. Bu Ignacio A. Cienfuegos, myfyriwr o Gynllun Bioleg y Môr a Dŵr Croyw, yn gweithio ar y prosiect hwn yn ystod ei radd. Canfu'r ymchwilwyr fod y gwrthfotigau yn newid microbiom y perfedd yn sylweddol ac yn newid helaethrwydd y bacteria y canfuwyd eu bod yn ymwneud â ffurfio cof iach mewn anifeiliaid eraill, gan gynnwys bodau dynol.



Malwoden (*Lymnaea stagnalis*). Llun: Dr Sarah Dalesman

Ecoleg Seilwaith Llinol yn helpu i amddiffyn bywyd gwyllt.

Mae seilwaith dynol, megis ffyrdd a llinellau pŵer, yn cael effeithiau andwyol di-ri ar ffoamrywiaeth fyd-eang ac mae llawer o fylchau o hyd yn yr wybodaeth ynghylch maint yr effeithiau a sut i'w lliniaru. Mae gwyddonwyr Aberystwyth yn helpu i lenwi'r bylchau hyn drwy weithio ar rywogaethau o bryder cadwraeth uchel yn Ne Affrica (gan ganolbwyntio ar brimatiaid yn bennaf) a'r DU i gefnogi ymdrechion cadwraeth rhywogaethau.



Llun: Dr Bibi Linden

Morloi'r Antarctig yn helpu gwyddonydd Aberystwyth i fonitro cynhesu'r môr

Bydd pa mor bell a pha mor gyflym y mae'r cerrynt cynnes yn llifo o dan rewlifoedd yr Antarctig, gan eu toddi oddi tano, yn effeithio ar pa mor gyflym y byddan nhw'n cwmpo. Gallai eu diflaniad arwain at gynnydd trychinebus yn lefel y môr gan adael aneddiadau arfordirol mawr ar draws y byd o dan y dŵr. Hyd yn oed gydag offer blaengar, gall fod yn anodd iawn mesur tymheredd dŵr dwfn yn Antarctica - yn enwedig o dan yr iâ. Fodd bynnag, mae morloi Weddell ac eliffant yn nofio'n rheolaidd trwy'r union ddyfroedd y mae gwyddonwyr am eu monitro. Bydd yr ymchwilydd o Aberystwyth yn lleoli ac yn tagio morloi fel rhan o'r ymdrech ryngwladol hon i ddeall effeithiau newid hinsawdd mewn rhanbarthau pegynol. Bydd y data o'r morloi yn cael ei dderbyn trwy loeren pan fydd y morloi'n dod nôl i'r wyneb uwchben y cefnfor.



Morloi eliffant yn yr Antarctig. Llun: Dr Guilherme Bortolotto

Prosiect blychau nythu Aberystwyth yn edrych ar effaith newid hinsawdd ar fridio adar

Diben yr astudiaeth yw gwella ein dealltwriaeth o'r effaith y mae newid hinsawdd yn ei chael ar yr ymwneud rhwng gwahanol rywogaethau, yn enwedig adar y coetir. Rydyn ni'n gwybod bod gwanwyn cynhesach eisoes yn arwain at adar yn bridio yn gynt, ac rydyn ni'n gobeithio deall mwy ar sut y gallai hyn effeithio ar y gystadleuaeth rhwng rhywogaethau adar gwahanol. Mae myfyrrwyr ar y cynllun gradd Cadwraeth Bywyd Gwyllt yn helpu gyda'r prosiect.



Adran Y Gwyddorau Bywyd
Prifysgol Aberystwyth,
Penglais,
Aberystwyth,
Ceredigion, SY23 3DA

+44 (0) 1970 622270

derbyniadau@aber.ac.uk

@aberdlsagb.bsky.social

aberdlsagb



Wedi'u dylunio a'u cynhyrchu gan
Marchnata Byd-eang a Denu Myfyrwyr,
Prifysgol Aberystwyth 2025.



Argraffwyd ar bapur
wedi'i ailgylchu 100%